Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 21 Mai 2020 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 15 Mai 2020.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Daniel De'Ath(Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

27 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Elsmore a Walker

28 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

| **Cynghorydd** | **Rhif Eitem** | **Natur y Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Simmons | 7 | Personol fel Aelod o'r Undeb Pensiwn a Chredyd |
| Y Cynghorydd Williams | 7 | Personol - cyflogir gan BCB International sy'n cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor |

29 : COFNODION

Llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2020 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

30 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

<u>Staff Cyngor Caerdydd yn Gweithio dros Gaerdydd</u>

Diolchodd yr Arglwydd Faer yn bersonol i'r miloedd o staff yng Nghyngor Caerdydd a oedd yn gweithio'n anhygoel o galed dros y ddinas drwy gydol argyfwng COVID-19 a mynegodd ei ddiolchgarwch, ei werthfawrogiad a'i falchder ef a'i gyd-Aelodau o ran y gwaith sy'n cael ei wneud.

O ofal cymdeithasol i addysg, cefnogi'r digartref i gynnig bwyd a darpariaethau i'r rhai sydd mewn angen, parhau i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed, casglu gwastraff ac ailgylchu, cadw ein parciau a'n mannau gwyrdd yn ddiogel - mae'r rhestr o wasanaethau sy'n cael eu darparu o dan amgylchiadau hynod heriol yn un hir.

<u>1,200 o Wirfoddolwyr Cofrestredig</u>

Mae'r gweithlu Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd yn grŵp o 1,200 o drigolion o bob rhan o'r ddinas sy'n gwirfoddoli.

Mae gwirfoddolwyr sydd wedi ymuno â Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd yn gwneud gwaith hollbwysig i helpu pobl agored i niwed, gan gynnwys danfon darpariaethau a rhoi cymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

<u>Rhoddion i'r Apêl Bwyd</u>

Mae Apêl Bwyd Cyngor Caerdydd wedi codi bron i £100,000 i helpu pobl mewn angen gyda bwyd a hanfodion brys.

Mae'r fenter wedi'i sefydlu i sicrhau bod y rhai sy'n wynebu anawsterau ariannol yn gallu prynu bwyd, ac i ddarparu ar gyfer y rhai na allant siopa drostynt eu hunain ar hyn o bryd.

Bydd yr holl arian a godir drwy'r apêl yn cael ei wario ar fwyd a hanfodion.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd sydd wedi cefnogi'r holl aelodau etholedig i gael mynediad i'r cyfarfod hwn, darparu hyfforddiant a chefnogi'r ffordd hon o weithio wrth symud ymlaen.

31 : TREFNIADAU LLYWODRAETHU YN YSTOD YR ARGYFWNG COVID-19

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas, yr adroddiad, a ganiataodd i'r Cyngor gytuno ar newidiadau i'w drefniadau llywodraethu yn ystod y cyfnod pan amherir ar weithrediadau busnes arferol oherwydd cyfyngiadau'r Llywodraeth a phwysau gwasanaeth ychwanegol yn sgil pandemig presennol COVID-19. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y diwygiad a roddwyd gan Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a chadarnhaodd fod y newid wedi'i dderbyn. Sefydlu Panel Craffu COVID-19 yn cynnwys y pum Cadeirydd Craffu.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Adrian Robson a ailadroddodd sut yr oedd gwasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu haddasu i gefnogi'r argyfwng.

Roedd diwygiad wedi'i dderbyn gan Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Boyle ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Berman.

Argymhellir bod y Cyngor yn:

Cyflwyno erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor gynnig i ailddechrau cwestiynau ysgrifenedig, y byddai'r atebion iddynt yn rhan o gofnod ffurfiol y cyfarfod.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr eitem.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer yr Arweinydd i ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

Dechreuodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar yr argymhellion yn yr adroddiad, gan gynnwys argymhelliad 6, oedd yn ychwanegol, a nodwyd ar y daflen o ddiwygiadau.

ENILLWYD y bleidlais.

32 : ARGLWYDD FAER A DIRPRWY ARGLWYDD FAER ETHOLEDIG

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas, i gynnig yr enwebiad ar gyfer yr Arglwydd Faer Etholedig.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr, y Cynghorydd Adrian Robson, i eilio'r enwebiad.

Cadarnhaodd yr Arglwydd Faer mai'r Cynghorydd Rod McKerlich oedd yr Arglwydd Faer Etholedig ar gyfer blwyddyn 2020/21 y Cyngor.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, y Cynghorydd Joe Boyle, i gynnig yr enwebiad i ethol Dirprwy Arglwydd Faer.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer Arweinydd Y Blaid Genedlaethol, y Cynghorydd Keith Parry, i eilio'r enwebiad.

Cadarnhaodd yr Arglwydd Faer mai'r Cynghorydd Lyn Hudson oedd y Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig ar gyfer blwyddyn 2020/21 y Cyngor.

33 : DATGANIAD YR ARWEINYDD MEWN PERTHYNAS Â COVID 19

Derbyniodd y Cyngor Ddatganiad yr Arweinydd, a oedd yn cynnwys diweddariadau ar bortffolios holl Aelodau'r Cabinet.

Roedd cwestiynau wedi'u derbyn i'r Datganiad gan bob Grŵp Gwleidyddol a'r Cynghorydd Bowden. Derbyniwyd pymtheg o gwestiynau ar sail wleidyddol gyfrannol gan y Cynghorwyr canlynol:

Y Cynghorydd Adrian Robson
Y Cynghorydd Sean Driscoll
Y Cynghorydd Bablin Molik
Y Cynghorydd Keith Parry
Y Cynghorydd Norma Mackie
Y Cynghorydd Lyn Hudson
Y Cynghorydd Rees
Y Cynghorydd Lee Bridgeman
Y Cynghorydd Rodney Berman

Y Cynghorydd Owen Jones
Y Cynghorydd Dilwar Ali
Y Cynghorydd Iona Gordon
Y Cynghorydd Burke-Davies
Y Cynghorydd Oliver Owen
Y Cynghorydd Rhys Taylor
Y Cynghorydd Fenella Bowden

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet i gwestiynau a godwyd mewn perthynas â:

- Chyllid, trafodaeth ar incwm a gollwyd gyda Llywodraeth Cymru. Incwm staff sy'n gymwys ar gyfer ffyrlo. Y gyllideb amgen pan fydd y Cyngor yn dechrau dod allan o'r argyfwng gan fod y gyllideb gyfredol bellach wedi dyddio.
- Trafnidiaeth, lleihau traffig, cynlluniau i osod seilwaith mewn perthynas â chroesfannau newydd a chost cynlluniau.
- Hyfywedd ariannol trafnidiaeth Caerdydd yn ystod yr argyfwng.
- Arwyddion cyflymder 20 milltir yr awr yn y Ddinas a mesurau yn eu lle i'w gorfodi.
- Digartrefedd, sut yr ymatebodd y Cyngor i'r digartref a'r cymorth a roddwyd wrth ddelio â'r argyfwng, gan gynnwys darparu llety.
- Arwyddion traffig, ail-ddylunio mannau cyhoeddus a chanolfannau siopa, gweithredu hybiau a llyfrgelloedd pan fyddant yn ail-agor.
- Darpariaeth arbenigol ar gyfer plant oedran cynradd ac amserlenni.
- Gwasanaethau Plant, gweithwyr allweddol a chyswllt â phlant ar y gofrestr risg.
- Yr effaith ar grwpiau agored i niwed, iechyd a chydraddoldeb, materion yn ymwneud â gordewdra, yr effaith y mae'r feirws yn ei chael ar grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Yr effaith ar bobl o ardaloedd difreintiedig.
- Ymdrech yr adran Rheoli Gwastraff wedi'i chydnabod gan drigolion. Amserlenni ar gyfer casgliadau gwastraff a'r cymorth a roddir gan dimau casglu sbwriel.
- Cyrchu Cyfarpar Diogelu Personol a dosbarthu bwyd i bobl agored i niwed.
- Camau a roddir ar waith i ddefnyddio gorchmynion traffig dros dro i ymestyn y gofod ar gyfer cerdded a beicio a hyrwyddo teithio llesol.
- Rheoli adferiad y ddinas i gefnogi busnesau a siopau i ail-agor.
- Addysg, ysgolion Cymraeg a'r cymorth a roddir i blant â chyswllt cyfyngedig â disgyblion/athrawon.
- Darpariaeth ar gyfer dysgwyr agored i niwed a dysgwyr arbennig.
- Plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i Gymru ar hyn o bryd sy'n derbyn cyngor gwahanol mewn perthynas ag ymateb COVID-19 a sicrhau eu diogelwch.

34 : MATERION BRYS

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

35 : PENDERFYNIADAU LLE MAE GALW I MEWN WEDI'I DDATGYMHWYSO - I'W NODI

- SMT/19 – 20/59
  Comisiwn Argyfyngau Sifil COVID-19 - Wild Water Cold
  Mannau storio ar gyfer Gwasanaethau Storio mewn Corffdai Dros Dro

- SMT/19 – 20/61
  Rhyddhad Cyflenwyr COVID-19 ar gyfer Greenwich Leisure LTD (GLL)

36 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOL AWDURDOD LLEOL

I'r Cyngor gymeradwyo penodiadau fel Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor, yn unol ag argymhellion Panel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol, yn cymeradwyo'r penodiad newydd ac ailbenodi llywodraethwyr Awdurdod Lleol i gyrff llywodraethu ysgolion fel y nodir yn Atodiad 1, bob un am dymor o 4 blynedd o’r dyddiad penodi.

37 : PENODIADAU PWYLLGOR

I dderbyn enwebiadau a gwneud penodiadau i swyddi gwag pwyllgorau cyfredol fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD: Argymell i’r Cyngor benodi i'r swyddi gwag ar y Pwyllgorau yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau'r Pleidiau fel y nodir ar y Daflen o Ddiwygiadau.